

Annwyl rieni / warcheidwaid

Ar ddiwedd cyfnod prysur iawn, braf yw gallu cysylltu gyda chi er mwyn eich diweddarau am newyddion y tymor.

Ymweliad Estyn a chynnydd yn erbyn ein cynllun gwella ôl arolwg.

Mae'n anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio ers i ni gael yr ymweliad gan Estyn. Rydym wedi ffocysu yn ofalus ar y negeseuon a braf yw gallu adrodd ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol yn erbyn y tri argymhelliad. Bydd yr adroddiad diweddaraf a gyflwynwyd i'r Llywodraethwyr yn cael ei rannu ar ein gwefan lle byddwch yn gallu gweld y camau gwella yn fanylach. Byddwn yn ffocysu y tymor nesaf ar gynllunio ein camau gwella ar gyfer 2023-24.

Llwyddiannau ein disgyblion



Cafwyd eisteddfod Ysgol arbennig ar ddydd Gwener Chwefror 17eg. Dyma'r eisteddfod Ysgol gyntaf ers 2019 ac yn wir roedd teimlad bendigedig o gystadlu, mwynhau a dathlu ar draws yr holl Ysgol. Uchafbwynt y diwrnod oedd y seremoni gadeirio a hoffwn longyfarch Efa Jones blwyddyn 12 ac Alaw Davies blwyddyn 8.

Bydd nifer fawr o ddisgyblion yn cynrhycholi'r Ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri ac edrychwn ymlaen at gael eu cefnogi.



Côr Cynradd: **1af**

Unawd Llinynnol BI7-9: **Mabli Lloyd 1af**

Unawd Piano BI7-9: **Arthur Wilkinson 1af**

Unawd Pres BI10 a dan 19: **Siôn Lloyd 1af**

Unawd Piano BI10 a dan 19: **Sadie Brophy 1af**

Unawd Llinynnol BI10 a dan 19: **Mea Verallo 1af**

Ensemble Offerynnol BI10 a dan 19: **Ysgol Ystalyfera 1af**

Unawd BI7-9: **Miley Powell 1af**

Deuawd BI10-13: **Mia a Megan 1af**

Alaw Werin BI10-13: **Mia Hutchins 1af**

Côr Bechgyn Iau: **1af**

Côr Merched Iau: **1af**

Côr Bechgyn Hŷn: **1af**

Côr Merched Hŷn: **1af**

Côr Gwerin: **1af**

Côr SATB: **1af**

Ymgom Iau: **1af**

Ymgom Hŷn: **1af**

Cyflwyniad Theatrig: **1af**

Parti Llefaru Hŷn: **1af**



Enillodd tîm dadlau blwyddyn 9 rownd derfynol cystadleuaeth dadlau Rhwydwaith Seren yn stiwdio'r Egin yng Nghaerfyrddin. Aelodau'r tîm oedd Esther Harper, Levi Hubbard, Mari Morgan Jones, Amelia Sivertsen, Lewys Morse.



Cymerodd disgyblion blwyddyn 12 ran mewn Prosiect Chweched Dosbarth EESW (Engineering Education Scheme Wales), ble roedd rhaid iddynt weithio gyda chwmni lleol i ddatrys problem ar eu safle. Gweithiodd ein tîm gyda Vale i ddyfeisio ffordd o greu 3000m³ o hydrogen yr awr heb unrhyw allyriadau CO₂. Roedd y tîm wedi ymchwilio, dylunio, a chreu (gan ddefnyddio argraffydd 3D) cell tanwydd i wahanu dwr mewn i hydrogen ac ocsigen trwy ddefnyddio electrolysis.

Llongyfarchiadau hefyd i dîm rygbi XV cyntaf yr Ysgol ar gyrraedd rownd derfynol Cwpan Ysgolion Cymru dan 18oed.

Rydym yn gwneud ein gorau glas i drydaru llwyddiannau ein disgyblion unigol ar ein gwefannau cymdeithasol – Trydar, Facebook a Gwefan yr Ysgol. Plîs cysylltwch os oes gennych newyddion am eich plentyn.



Cwricwlwm i Gymru

Ym mis Medi byddwn yn cyfwyno Cwricwlwm i Gymru i flynyddoedd 7 ac 8, er bod y Gwaith eisoes ar waith o fewn yr Adran Gynradd wrth gwrs. Mae ein gwaith o gynllunio wedi bod yn drylwyr ac edrychwn ymlaen at gael gweithio yn llawn ar sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu egwyddorion y Pedwar Diben sydd wrth gwrs yn greiddiol i'r weledigaeth. Am wybodaeth pellach hoffwn eich gwahodd i wefan yr Ysgol lle cewch wybodaeth fanwl o'r trefniadau.

<http://www.ysgolystalyferabrodur.cymru/>

Diogelu

Fel y gwyddoch, mae ein ffocws ar sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu fel dinasyddion egwyddorol gwybodus yn flaenoriaeth a'r tymor hwn rydym wedi cael sesiynau gyda'r Frigâd dân, Spectrum (trafod perthnasoedd ac emosiynau), rhaglen 'School In-reach' ar emosiynau a'r Nyrsys Ysgol.



Codi arian

Rydym yn ffocysu y tymor hwn ar godi arian i'r ysgol ac yn benodol ar gyfer adnoddau chwaraeon awyr agored. Bydd blynyddoedd 1 - 9 yn cael eu noddi ar gyfer cystadleuaeth pêl droed felly yn targedu eu hiechyd a lles personol wrth gefnogi ein hymgyrch mewnol. Diolch i chi gyd ymlaen llaw am gefnogi'r fenter.

Ffarwelio, diolch a dymuno'n dda.

Ar ddiwedd y tymor hwn, rydym yn diolch yn fawr iawn i Miss Rebecca James am ei gwaith o fewn yr Adran Fathemateg a dymunwn bob llwyddiant iddi wrth iddi gychwyn yn ei swydd newydd. Hoffwn hefyd dymuno bob hapusrwydd i Miss Ffion Williams a fydd yn priodi dros wyliau'r Pasg.

Tymor yr Haf

Wrth edrych ymlaen at y tymor olaf, hoffwn dynnu eich sylw at y materion canlynol:

Presenoldeb

Mae presenoldeb uchel yn allweddol ar gyfer llwyddiant eich plentyn. Dylai pob plentyn anelu at bresenoldeb 100% er mwyn elwa'n llawn ar bob cyfle a ddarperir o fewn yr ysgol. Hoffem hefyd ofyn am eich cefnogaeth o ran sicrhau prydlondeb i'r ysgol. Disgwylir i bob plentyn fod yn yr ysgol erbyn 8.40yb os gwelwch yn dda. Mae cyrraedd yn hwyrach na hynny yn torri ar draws gwersi ac amser ymgartrefu i'r dosbarth i bawb ar ddechrau'r diwrnod ysgol. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth, bob amser.

Parcio'n ddiogel wrth y safle

Os gwelwch yn dda, parciwch yn gyfrifol wrth y safle gan fod nifer fawr o'm cymuned yn cerdded, beicio neu'n dod ar ei sgwteri. Mae gennyn ni oll gyfrifoldeb personol i ddilyn rheolau'r heol fawr ac am ddiogelu pawb sydd yn defnyddio'r llwybrau ar ddechrau a diwedd y diwrnod Ysgol. Mae parcio dwbwl yn beryglus iawn, ac rydym wedi gofyn am gefnogaeth y PCSO gyda'r mater yma. Diolch i chi am beidio â defnyddio'r maes parcio staff o gwbl ac am gadw'r palmentydd yn glir ar bob achlysur.

Clybiau Ysgol B1 3-6

Bydd clybiau Ysgol yn ail-ddechrau i F1 3-6 o Ddydd Llun, 24ain o Ebrill. NI FYDD clybiau Ysgol yn ystod yr wythnos 17-21 Ebrill. (Bydd clwb yr URDD yn rhedeg fel arfer yn ystod yr wythnos hon oni bai eich bod yn cael neges yn dweud yn wahanol yn agosach at yr amser).

Cylch

Mae'r cylch Ti a Fi yn mynd o nerth i nerth. Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth, ac os ydych yn ymwybodol o eraill sydd yn chwilio am ddarpariaeth hwylus i blant o dan 3 oed, byddwn yn ddiolchgar am eich cefnogaeth wrth hysbysebu. Rydym yn cwrdd ar fore Gwener yn wythnosol (heblaw am ddiwrnodau pan fydd HMS) rhwng 9.45-11yb yn Neuadd y Wern, yr Adran Gynradd.

Noson agored Cynradd 3.10-5yp

Mae'n bleser eich hysbysu o noson agored gynradd ar ddydd Iau, Ebrill 27ain. Bydd y côr yn perfformio a bydd cyfle i chi siarad â staff a gyda Mr Rhys Locks (ein swyddog cefnogi o'r Sir) fydd gyda ni fydd â gwybodaeth ar ddwyieithrwydd a sut fedrwch gefnogi'ch plentyn adref. Dewch i gael paned a chlonc gyda ni. Mae yna groeso cynnes iawn i rieni a gwarcheidwaid presennol a darpar

rieni wrth gwrs! Lledwch y neges os fedrwch! Bydd Ty Tawe yma hefyd yn gwerthu llyfrau cyfrwng Cymraeg (dim ond arian parod a dderbynir).

Unwaith eto, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ac edrychaf ymlaen gydag egni a brwdfrydedd at dymor arall o waith o'r safon uchaf.

Calendr Tymor yr Haf

Llun	17	Ebrill	Tymor yn cychwyn – ysgol i bawb Taith Bl 6 i Lan-llyn
Mawrth	18	Ebrill	Taith Bl 6 i Lan-llyn
Mercher	19	Ebrill	Taith Bl 6 i Lan-llyn
Iau	20	Ebrill	Dychwelyd y taflenni nawdd 'Football First'
Gwener	21	Ebrill	Disgo tawel Menter Iaith CNPT (Derbyn – Bl 6)
Iau	27	Ebrill	Noson agored cynradd 3.10-5yp
Gwener	28	Ebrill	Ymweliad gan y 'Sibrydwr Cymraeg' – cyfle i gyfansoddi a chael dathlu'n Cymreictod
Llun	1	Mai	<i>Gŵyl Fai</i>
Llun	8	Mai	<i>Gŵyl y Banc - Coroni</i>
Gwener	12	Mai	Gwasanaeth dosbarth Blwyddyn 1 9yb
Gwener	19	Mai	Gwasanaeth dosbarth y Dosbarth Derbyn 9yb
Gwener	26	Mai	Gwasanaeth dosbarth Y Meithrin 9yb
29/05 – 02/06		<i>Hanner tymor / Eisteddfod yr Urdd</i>	
Mawrth	6	Mehafin	Gweithdai Drama i'r Adran Iau
Mercher	7	Mehafin	Taith Llangrannog Bl 4 a 5
Iau	8	Mehafin	Taith Llangrannog Bl 4 a 5
Gwener	9	Mehafin	Taith Llangrannog Bl 4 a 5 Gwasanaeth Parchedig Hewitt Sesiwn bontio Cynllun 'In-reach' Bae Abertawe
Mercher	14	Mehafin	Dydd a noson agored Bl.6 YGY
Mawrth	20	Mehafin	Ffenest Profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn agor
Iau	29	Mehafin	Bore coffi 9yb - Sut allai gefnogi fy mhentyn yn emosiynol? Croeso i bawb.
Gwener	30	Mehafin	HMS 4
Gwener	7	Gorffennaf	Mabolgampau NPT Diwrnod olaf cyflwyno'r Adroddiadau diwedd Tymor
Llun	10	Gorffennaf	HMS 5
Mawrth	11	Gorffennaf	Noson Rieny yn dilyn yr adroddiad pe ddymunir
Mercher	12	Gorffennaf	Noson Drws Agored YGY
Gwener	14	Gorffennaf	Gig Siarter Iaith Clwstwr YGY Bl 5 a 6
Mercher	19	Gorffennaf	Gwasanaethau Gwobrwy Ystalyfera
Gwener	20	Gorffennaf	Diwedd tymor
Llun	24	Gorffennaf	HMS 6
Gorffennaf – Medi		<i>Gwyliau'r Haf</i>	



Adran Gynradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Glanyrafon, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2JJ
(01639) 846900
YsgolYstalyferaCynradd@npt.school

Byddwn yn ychwanegu mwy at y calendr wrth fynd ymlaen a cheisiwn eich hysbysu mewn da bryd o ddyddiadau pwysig sydd i'w hychwanegu gan gynnwys ein mabolgampau Ysgol a threfniadau Eisteddfod yr Urdd dros hanner tymor Sulgwyn.

Am luniau o'r gweithgareddau oll ac am ein newyddion diweddaraf, dilynwch ein cyfrifon cymdeithasol Trydar ar: @ygybdcynradd ar y Weplyfr ar @YsgolYstalyfera ac ar ein gwefan www.ysgolystalyferabrodur.cymru/

Gobeithio y cewch chi doriad Pasg da ac edrychaf ymlaen at dymor arall o gynnydd a chyflawniad ym mhob maes dysgu yn ein tymor olaf.

Yn gywir

Pennaeth

Dear Parents / Guardians,

At the end of a very busy period, I would like to take this opportunity to contact you to keep you up to date with the news of the term.

Estyn visit and progress against our post inspection improvement plan.

It's difficult to believe that a whole year has gone by since we had the visit from Estyn. We have focused carefully on the messages that they shared, and I am delighted to be able to report that we have made significant progress against all three recommendations. The latest report submitted to the Governors will be shared on our website where you will be able to see the improvement steps in more detail. We will focus next term on constructing our improvement plan for 2023-24.

Our pupils' achievements

We held a very special School eisteddfod on Friday February 17th. This was the first School eisteddfod since 2019 and there was a wonderful feeling of competition, enjoyment and celebration across the whole School. The highlight of the day was the chairing ceremony, and I would like to congratulate Efa Jones year 12 and Alaw Davies year 8 on their excellent achievements.



Many pupils will represent the School at the Urdd Eisteddfod in Llandovery in May and we look forward to supporting them.

Primary Choir: **1st**
String Solo Yr7-9: **Mabli Lloyd 1st**
Piano Yr7-9: **Arthur Wilkinson 1af**
Brass Solo Yr10 & Under 19: **Sion Lloyd 1st**
Piano Yr10 a dan 19: **Sadie Brophy 1af**
String Solo Yr10 & Under 19: **Mea Verallo 1st**
Instrumental Ensemble Yr10 & Under 19: **Ysgol Ystalyfera 1st**
Solo Yr7-9: **Miley Powell 1st**
Duet Yr10-13: **Mia a Megan 1af**
Folk Solo Yr10-13: **Mia Hutchins 1st**

Junior Boys Choir: **1st**
Junior Girls Choir: **1st**
Senior Boys Choir: **1st**
Senior Girls Choir: **1st**
Folk Choir: **1st**
SATB Choir: **1st**
Junior Duologue: **1st**
Senior Duologue: **1st**
Theatrical Presentation: **1st**
Senior Vocal Presentation Party: **1st**



The year 9 debating team won the final of the Seren Network competition debating at the Egin studio in Carmarthen. Team members were Esther Harper, Levi Hubbard, Mari Morgan Jones, Amelia Sivertsen, Lewys Morse.

Year 12 pupils took part in an EESW (Engineering Education Scheme Wales) Sixth Form Project, where they had to work with a local company to solve a problem on their site. Our team worked with Vale to devise a way to create 3000m³ of hydrogen per hour without any CO₂ emissions. The team researched, designed, and created (using a 3D printer) a fuel cell to separate water into hydrogen and oxygen using electrolysis.



Congratulations also to the School's first rugby XV team on reaching the Welsh Under 18s Schools Cup final row.

We do our utmost to tweet the achievements of our individual pupils on our social sites – Twitter, Facebook and the School Website. Please get in touch if you have news about your child.

Curriculum for Wales

In September we will deliver our new Curriculum for Wales to years 7 and 8 which we have already implemented in the Primary Department. Our planning has been thorough and we look forward to working fully on ensuring that our pupils develop the principles of the Four Purposes which are of course core to the vision. For further information I would like to invite you to the school's website where you will find detailed information of the arrangements.

<http://www.ysgolystalyferabrodur.cymru/>

Safeguarding

As you know, our focus on ensuring that our pupils develop as informed principled citizens is a priority and this term we have had sessions with the fire brigade, Spectrum (sessions on relationships and emotions), Swansea Bay school in reach-programme on emotions and the School Nursing Service.

Fundraising

We are focusing this term on fundraising for the school and specifically for outdoor sports resources. Years 1 – 9 will be sponsored for a football competition therefore targeting their personal health and wellbeing whilst supporting our school campaign. Thank you all in advance for supporting the initiative.



Farewell, thank you and well wishes.

At the end of this term, we thank Miss Rebecca James very much for her work within the Mathematics Department and wish her every success as she takes up her new role. I would also like to wish Miss Ffion Williams every happiness as she will be getting married over the Easter holidays.

Summer Term

Looking ahead to the final term, I would like to draw your attention to the following issues:

Attendance

High attendance is key to your child's success. All children should aim for 100% attendance to take full advantage of every opportunity provided within the school. We would also like to ask for your support in ensuring timeliness to the school. It is essential for every child to be at school by 8.40am. Arriving later than that interrupts lessons and class settling time for everyone. Thank you so much for your support.

Parking safely at the site

Please park responsibly at the site as a large number of our school community walks, bikes or comes on their scooters. We all have a personal responsibility to follow the rules of the highway and to protect everyone who uses the paths at the beginning and at the end of the School day. Double parking is very dangerous, and we have asked for the PCSO's support with this issue. Thank you for not using the staff car park at all and for keeping the pavements clear on all occasions.

Yrs 3-6 School Clubs

School clubs will re-start for Yr 3-6 from Monday, 24th April. There WILL BE NO School clubs during the week of 17-21 April. (The URDD club will be running normally during this week unless you get a message saying differently closer to the time).

Cylch Ti a Fi

Our Cylch Ti a Fi continues to go from strength to strength. I would like to thank you for your support, and if you know of others who are looking for provision for children under 3 years of age, I would be grateful for your support in advertising our excellent Cylch. We meet on Friday mornings weekly (except for INSET days) between 9.45-11am at Neuadd y Wern, the Primary Department.

Primary open evening 3.10-5pm

It is a pleasure to inform you of a primary open evening on Thursday, April 27th. The choir will be performing and you will have the opportunity to speak with staff. We are also looking forward to welcoming Mr Rhys Locke (our county support officer) who will be with us and will have information on bilingualism and how you can support your child at home. Come and join us for a coffee and a chat! There is a very warm welcome to current and prospective parents and guardians of course! Please spread the word if you can! Tŷ Tawe will also be here selling Welsh medium books (only cash will be accepted).

Once again thank you for your continued support, I look forward to another energetic and prosperous term.

Summer Term Calendar

Monday	17	April	Term starts – school for all Residential Yr 6 Glan-Ilyn
Tuesday	18	April	Residential Yr 6 Glan-Ilyn
Wednesday	19	April	Residential Yr 6 Glan-Ilyn
Thursday	20	April	Return sponsorship forms for 'Football First'
Friday	21	April	Quiet disco Menter Iaith CNPT (Reception – Yr 6)
Thursday	27	April	Primary Open evening 3.10-5yp
Friday	28	April	Welsh Whisperer Visit – an opportunity to celebrate our Welshness
Monday	1	May	<i>Bank Holiday</i>
Monday	8	May	<i>Bank Holiday - Coronation</i>
Friday	12	May	Year 1 Class Assembly 1 9am
Friday	19	May	Reception Class Assembly 9am
Friday	26	May	Nursery Class Assembly 9am
29/05 – 02/06		<i>Half Term / Urdd Esitoddod</i>	
Tuesday	6	June	Drama Workshops for the Junior Departmen
Wednesday	7	June	Residential to Llangrannog Years 4 and 5
Thursday	8	June	Residential to Llangrannog Years 4 and 5
Friday	9	June	Residential to Llangrannog Years 4 and 5 Reverand Hewitt Assembly Bridging session by Swansea Bay School 'In-reach'
Wednesday	14	June	Year 6 open night
Tuesday	20	June	Assessment window – Literacy and Numeracy tests
Thursday	29	June	Coffee morning 9am – How can I support my child emotionally?
Friday	30	June	INSET 4
Friday	7	July	NPT Sports Day Final day to receive school reports
Monday	10	July	INSET 5
Tuesday	11	July	Parents night following school report if desired
Wednesday	12	July	YGY open evening
Friday	14	July	Cluster Welsh Language Charter Gig
Wednesday	19	July	Awards ceremony YGY
Friday	20	July	End of term
Monday	24	July	INSET 6
July – September		<i>Summer Holiday</i>	

We will be adding more to the calendar as we go along and will try to keep you informed in good time of important dates to be added including our School sports and Urdd Eisteddfod arrangements over half of Whitsun's term. For photos of all the activities and for our latest news, follow our Twitter social accounts on @ygybdcynradd our facebook account on @YsgolYstalyfera and our website at www.ysgolystalyferabrodur.cymru/

I hope you have a good Easter break and I look forward to another term of progress and achievement in all areas of learning in our final term.

Yn gywir



Head